

Clinig Falfiau Dan Arweiniad Ffisiolegydd




Beth yw'r clinig falfiau dan arweiniad ffisiolegydd?

Byddech wedi cael eich atgyfeirio i'r clinig hwn gan eich cardiolegydd ymgynghorol gan nad yw un neu fwy o falfiau eich calon yn gweithio fel y dylent. Ym mhob apwyntiad clinig byddwch yn cael eich adolygu gan ecoffisiolegydd arbenigol iawn a fydd yn gofyn i chi am eich symptomau, yn perfformio asesiad clinigol, yn gwneud electrocardiogram (ECG) ac yn cofnodi pwysedd gwaed. Yna bydd ecocardiogram yn cael ei gynnal. Cyn i chi adael y clinig, byddwch yn cael gwybod am y canlyniad.

Beth yw gwaith falfiau'r galon?

Mae eich gwaed yn llifo o amgylch eich calon a gweddill eich corff i un cyfeiriad, fel system draffig unffordd. Mae falfiau eich calon yn rheoli cyfeiriad llif eich gwaed. Mae ganddynt fflapiau bach iawn o groen a elwir yn ddalenni (neu weithiau yn gysbau) sy'n agor ac yn cau fel drysau gyda phob curiad calon - sef 100,000 gwaith y dydd! Maent yn atal y gwaed rhag llifo am yn ôl.

Mae pedwar falf yn eich calon, sef:



Beth yw clefyd falf y galon?

Clefyd falf y galon yw pan nad yw un neu fwy o falfiau eich calon yn gweithio fel y dylent. Mae sawl math o glefyd falf y galon. Mae'r prif broblemau yn cael eu hachosi gan nad yw'r falf yn agor yn llawn neu'n cau'n iawn:

Os nad yw'r falf yn agor yn llawn, bydd yn blocio neu'n cyfyngu ar lif y gwaed. Stenosis falf neu gulhau falf yw hyn.

Os nad yw'r falf yn cau'n llawn, bydd y gwaed yn gollwng yn ôl i'r galon yn hytrach nag ymlaen i'r corff. Gollyngiad falf, ailchwydiad falf neu falf sy'n gollwng yw'r enw ar hyn.

Gall y problemau hyn roi straen ychwanegol ar eich calon a gwneud i'ch calon weithio'n galetach. Gall hyn achosi i chi gael symptomau fel teimlo'n fwy blinedig a bod yn fyr eich gwynt.

Beth sy'n achosi clefyd falf y galon?

Prif achosion clefyd falf y galon yw:

- cael eich geni gyda falf neu falfiau annormal (clefyd cynhenid y galon)
- ar ôl cael twymyn riwmatig
- cardiomyopathi - clefyd cyhyr y galon

- niwed i gyhyr y galon o drawiad ar y galon
- heneiddio
- haint blaenorol gydag endocarditis

Beth yw symptomau clefyd falf y galon?

Nid oes gan rai pobl sydd â chlefyd falf y galon unrhyw symptomau, gall pobl eraill brofi symptomau lluosog. Nid oes cysylltiad rhwng pa mor ddifrifol yw clefyd falf y galon a faint o symptomau rydych yn eu teimlo na pha mor ddifrifol yw'ch symptomau. Gallwch brofi symptomau difrifol a bod â chlefyd falf y galon ysgafn neu i'r gwrthwyneb, mae symptomau pawb yn wahanol.


Ymhlith y symptomau mwyaf cyffredin mae:

- diffyg anadl a bod allan o wynt
- teimlo'n wan neu'n benysgafn
- anghysur yn eich brest
- pigyrnau a thraed chwyddedig
- bod yn anarferol o flinedig
- crychguriadau (teimlad crynu neu guro yn eich brest neu eich gwddf)

Apwyntiadau dilynol

Bydd eich apwyntiad dilynol yn cael ei drefnu yn unol â'r canllawiau ar glefyd falf y galon a bydd llythyr apwyntiad yn cael ei anfon yn nes at y dyddiad.

Dewch â rhestr o'ch meddyginiaethau cyfredol a gwisgwch ddillad cyfforddus sy'n hawdd eu newid. Gallwch ddisgwyl treulio dros 1 awr yn yr adran gardioleg ar ddiwrnod eich apwyntiad



**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**